**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **30/12/16** |

## PWNC

Eitem :DYFODOL DARPARIAETH ADDYSG YN NALGYLCH YSGOL Y BERWYN

## PENDERFYNIAD

Gohirio'r ystyried yr argymhellion yn yr adroddiad er mwyn ystyried yr ohebiaeth ddiweddaraf a dderbyniwyd gan yr Eglwys yng Nghymru ynghyd a'r farn gyfreithiol a dderbyniwyd hefyd.

Rhoi amser i swyddogion gynnal trafodaethau lleol pellach.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r sefyllfa o amgylch y datblygiadau diweddaraf o gwmpas llywodraethiant Campws Dysgu Y Bala ar ei newydd wedd yn parhau i fod yn ansicr yn dilyn derbyn gohebiaeth gan yr Eglwys yng Nghymru.

Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad er mwyn rhoi amser i ystyried y farn gyfreithiol a dderbyniwyd, ac i gael cyfle i ymgysylltu gyda'r trigolion lleol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

Ni chyflwynwyd sylwadau gan yr Aelod Lleol.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **30/12/16** |

## PWNC

Eitem :MATER YN CODI O'R PWYLLGOR CRAFFU - ARBEDION EFFEITHLONRWYDD PELLACH

## PENDERFYNIAD

Derbyn y rhaglen o wireddu'r arbedion a drafodwyd yn Cabinet y Cyngor ar 12 Gorffennaf 2016, gyda £278,000 i'w gwrdd o'r cynlluniau amgen a nodir yn rhan 3.7 – 3.18 o'r adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r penderfyniad yma yn rhoi sel bendith a chwblhau proses a gymeradwywyd yn nghyfarfod y Cabinet ar 12fed o Orffennaf 2016.

Golyga'r penderfyniad weithredu datrysiad amgen i gyfarch a tharged arbedion effeithlonrwydd o fewn Gwasaneth Gwarchod y Cyhoedd yn adran Rheoleiddio y Cyngor.

Mae'r datrysiad yn canolbwyntio ar aildrefnu mewnol a chynyddu incwm er mwyn cyflawni'r arbedion angenrheidiol. Bydd yn cyflawni arbedion o £387,000 yn ystod 2017-18.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Pwyllgorau Craffu Corfforaethol a Cymunedau yn ogystal a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **30/12/16** |

## PWNC

Eitem :CYD-LEOLI GWASANAETHAU

## PENDERFYNIAD

Comisiynu'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol i asesu'r portffolio Eiddo mewn lleoliadau penodol ar draws y Sir, gyda'r nod o geisio adnabod cyfleoedd i gyd leoli gwasanaethau er mwyn gallu gwneud defnydd mwy effeithlon o adeiladau'r Cyngor.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r pendefyniad yma yn caniatau i'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol fynd rhagddo i asesu lleoliadau gwasanaethau'r Cyngor.

Mae'n barhad o waith sydd yn mynd rhagddo gan y Gwasanaeth ers 2008 i adnabod adeiladau sydd yn rhan o bortffolio eiddo'r Cyngor, sydd yn bosib eu gwaredu. Erbyn hyn mae'r gwaith yn mynd yn anos gan fod yr adeiladau sydd ar ôl yn adeiladau gweithredol. Golyga hynny fod angen adnabod cyfleoedd i gydleoli gwasanaethau er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o adeiladau'r Cyngor.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **30/12/16** |

## PWNC

Eitem :PRYDLESU CYN YSGOL BRON Y FOEL, Y FRON

## PENDERFYNIAD

Defnyddio pwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i brydlesu cyn safle Ysgol Bron y Foel, Y Fron yn uniongyrchol i Canofan y Fron am lai na rhent y farchnad, er mwyn sicrhau buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'r penderfyniad yma yn caniatáu prydlesu cyn Ysgol Bron y Foel i grŵp cymunedol Canolfan y Fron. Pwysleisiwyd buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd dros y golled ariannol bosib, gan sicrhau fod y cyn ysgol yn parhau i fod yn rhan o'r gymuned leol.

Bu'r grŵp yn llwyddiannus gyda chais am £945,000 o arian o gronfa CAT 2 y Loteri Genedlaethol. Un o amodau creiddiol y grant yw nad oes posib ei ddefnyddio i brynu/prydlesu eiddo, a llwyddodd y cais ar y sail y byddai'r Cyngor yn cefnogi'r fenter trwy ddarparu'r adeilad.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Aelod Lleol am ei farn yn ogystal â barn y Swyddogion Statudol, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **30/12/16** |

## PWNC

Eitem :BLAENORIAETHAU CYLLIDEBOL A CHYLLIDEBAU YSGOLION UWCHRADD

## PENDERFYNIAD

i. Fod y Cabinet yn comisiynu cynllun i'w osod yn ein Cynllun Strategol ar gyfer 2017/18 i asesu ble ddylai'r llinell warchodaeth fod ar gyfer y Sector Uwchradd er mwyn defnyddio'r wybodaeth hwnnw wrth sefydlu cyllideb 2018/19;

ii. Gan dderbyn fod yna drafodaethau wedi cychwyn gyda rhanddeiliaid ar asesu'r broblem, y dylid tanlinellu'r angen i'r Cyngor newydd ystyried canlyniadau'r trafodaethau hynny yn fuan yn oes y Cyngor er mwyn sefydlu datrysiad hir dymor cynaliadwy ar gyfer y sector Uwchradd;

iii. Er mwyn prynu amser i hynny ddigwydd, ein bod yn gofyn i'r Aelod Cabinet dros Adnoddau geisio pontio am ddwy flynedd y £298,990 y mae disgwyl i'r sector Uwchradd ei ddarganfod i'w ariannu o falansau;

iv. Er mwyn osgoi gwastraffu adnoddau drwy ddiswyddo ac ail gyflogi, fod gofyn i'r Aelod cabinet dros Adnoddau hefyd ystyried cynnwys yn ei gyllideb ar gyfer 2017/18 arian pontio i'r ysgolion hynny fyddai'n colli arian oherwydd lleihad yn y niferoedd plant gan ystyried hefyd y defnydd o falansau ysgolion unigol mewn unrhyw gynllun a gynigir.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae wedi bod yn amlwg ers cryn amser fod angen canfod datrysiad hir dymor cynaliadwy i sefyllfa gyllido addysg Uwchradd yng Ngwynedd ac mae gwaith ar droed i wneud hynny. Yn y cyfamser mae yna fwy o ysgolion yn anelu am y llinell warchodaeth sydd gennym a chwestiynau hefyd ynglyn ag a yw'r llinell warchodaeth honno yn y lle iawn. Mae'n amserol felly comisiynu cynllun er mwyn sefydlu'r llinell warchodaeth ar gyfer y Sector Uwchradd.

Gan fod angen ystyried canlyniadau'r trafodaethau ar ddyfodol y sector Uwchradd bydd angen amser ychwanegol i gyflawni targed arbedion y Sector Uwchradd os am wneud hynny heb waethygu sefyllfa addysg Uwchradd o fewn y sir.

Mae wedi dod i’r amlwg hefyd fod y cyfanswm sirol o niferoedd disgyblion ysgolion uwchradd y sir yn disgyn yn 2017/18 ond yn codi wedyn yn y ddwy flynedd ganlynol. Gan fod ariannu ysgolion unigol yn cael ei ddyrannu yn ol y nifer o ddisgyblion, mae’n ddarbodus felly pontio’r diffyg fydd yn cael ei achosi gan y gostyngiad yn niferoedd y disgyblion. Golyga hynny ei bod yn bosib i’r ysgolion unigol osgoi diswyddo ac ail benodi staff mewn cyfnod cymharol fyr, gan osgoi costau diswyddo ac aflonyddu ar addysg y disgyblion.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd a’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i’r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **30/12/16** |

**PWNC**

Eitem :ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET PLANT, POBL IFANC A HAMDDEN

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Cymeradwyo ail broffilio gwireddu rhan o gynllun arbedion effeithlonrwydd 'HAM4 - Rhedeg cyfleusterau yn fwy effeithiol' (cyfanswm o £256,500), o'r flwyddyn ariannol 2017/18 i 2018/19.

| **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **40,000** | **267,500** | **75,758** | **256,500** | **639,758** |

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

Gan ystyried natur heriol cyflawni datrysiad cynllun arbedion 'Rhedeg cyfleusterau [hamdden] yn fwy effeithiol', ni fydd yn bosib osgoi gorwariant gan yr Adran Economi a Chymuned yn 2017-18 heb ailbroffilio'r arbedion.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **30/12/16** |

## PWNC

Eitem :ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET ADDYSG

## PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Cymeradwyo'r ffigyrau proffil amgen isod ar gyfer Cynllun P7 Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol:

| 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 26,238 | 98,356 | 436,004 | 247,863 | 808,461 |

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

Mae'r Cyngor wedi penderfynu cydweithio gyda Chyngor Môn er mwyn cyflawni'r arbedion sydd ynghlwm a chynllun P7 – Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r trafodaethau ffurfiol sydd ynghlwm a'r cynllun wedi cymryd mwy o amser na'r hyn oedd yn ddisgwyliedig, gan ddod a llithriad yn ei sgil.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **30/12/16** |

## PWNC

Eitem :ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET ADNODDAU

## PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Gyrru llythyr i Lywodraeth Cymru yn gofyn iddynt sicrhau y bydd taliadau Lefi Prentisiaeth a wneir yn dod yn ôl i'r Cyngor ar gyfer cyflogi prentisiaid.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol.

Mae'r Lefi Prentisiaeth yn ofyn ariannol ychwanegol ar y Cyngor fydd yn cael ei dalu yn uniongyrchol i Lywodraeth San Steffan. Nid oes unrhyw arwydd wedi dod gan Lywodraeth y Cynulliad ynglyn a'r hyn maent yn bwriadu ei wneud a'r arian ychwanegol yma, fydd yn cael ei ddyrannu yn ol fformiwla Barnett. Yn sgil y gwagle yma mae'r Cabinet wedi penderfynu rhoi pwysau ar Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau fod yr arian sy'n gadael y Cyngor trwy'r Lefi Prentisiaeth yn cael ei ddychwelyd er mwyn cyflogi prentisiad.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.